# Minutes

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Date: | Dydd Mercher, 10 Mai 2023 |
| Time: | 4.00 pm |
| Present: | Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Davies, D Batrouni, J Clarke, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall |

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Dim.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y cyfarfod diweddaf**

Derbyniwyd y Cofnodion o 12 Ebrill fel rhai cywir.

4 **Cronfa Ffyniant Gyffredin**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad cyntaf ar yr agenda, y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd gwerth £2.6bn oedd â'r nod o gynnal amcanion Codi'r Gwastad y Llywodraeth.

Yr amcanion yw:
Hybu cynhyrchedd, tâl, swyddi a safonau byw trwy dyfu'r sector preifat
Creu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus
Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, a
Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y mannau hynny lle nad oes cyrff lleol.

I wneud hyn, yr oedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canoli ar dair blaenoriaeth buddsoddi, sef:

- Cymunedau a Lle
- Cefnogi Busnesau Lleol
- Pobl a Sgiliau
- Yr oedd hefyd gronfa o'r enw Multiply, oedd yn canoli ar wella sgiliau rhifedd oedolion.

Dyrannwyd arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws y DU ar sail angen a aseswyd, a derbyniodd y 10 awdurdod lleol yn Ninas-Ranbarth Caerdydd gyfanswm dyraniad o ychydig dros £230m, a £48m yn ychwanegol ar gyfer Multiply. Cafodd Casnewydd ychydig dros

£27m ar gyfer gwariant craidd a £5.6m ymhellach ar gyfer Multiply, am y cyfnod o Ebrill 2022 tan ddiwedd Mawrth 2025.

I gael yr arian hwn, roedd gofyn i bob awdurdod lleol yn Ninas-Ranbarth Caerdydd ddatblygu un cynllun buddsoddi rhanbarthol. Cytunodd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022 i gadarnhau cyflwyno'r cynllun buddsoddi rhanbarthol gan yr Awdurdod Arweiniol.

Er i'r penderfyniad gael ei gymryd ym mis Gorffennaf llynedd, bu cryn oedi o du Llywodraeth y DU cyn cymeradwyo'r cynlluniau buddsoddi rhanbarthol a datblygu cytundebau ffurfiol ar gyfer y trefniadau llywodraethiant.

Dywedodd yr Arweinydd fod y problemau hyn wedi eu datrys, ond y collwyd rhyw 10 mis o gyflwyno Blwyddyn 1 y rhaglen. Serch hynny, gwariwyd peth o arian CFfG yn 2022/23. Nododd yr adroddiad fod bron i £700,000 yn cael ei hawlio am Flwyddyn 1 ar gyfer sawl prosiect, a gofynnwyd i'r Cabinet gadarnhau'r gwariant hwn.

Er y nodwyd fod yr oedi sylweddol wedi golygu fod y gwariant yn is na chyfanswm dyraniad Blwyddyn 1, yr oedd Llywodraeth y DU wedi cydnabod hyn ac wedi cadarnhau y byddai'r tanwariant yn cael ei gludo drosodd i Flwyddyn 2. Mae gofyn i'r Awdurdod Arweiniol gyflwyno cynllun credadwy sy'n dangos sut y gwerir yr arian a gariwyd drosodd yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae manylion pellach am hyn yn yr adroddiad.

Gwnaed llawer o waith i sicrhau bod y gronfa'n cael ei rheoli a'i monitro'n briodol trwy drefniadau llywodraethiant mewnol cadarn,

O gofio'r angen i fwrw ymlaen â chyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Lleol, gofynnwyd i'r Cabinet gytuno i amrywiaeth o swyddogaethau dirprwyedig i swyddogion penodol, a chreu bwrdd mewnol o uwch-swyddogion perthnasol o bob rhan o'r Cyngor. Byddid yn cytuno ar brosiectau penodol trwy ymgynghori â'r Arweinydd, gan y byddai'r Aelod Cabinet dros Dwf Economaidd a Buddsoddi Strategol ac Aelodau Cabinet eraill yn cael y newyddion diweddaraf trwy gael eu briffio gan arweinyddion y meysydd gwasanaeth perthnasol.

Tynnodd yr Arweinydd sylw cydweithwyr at y Cynllun Buddsoddi Lleol arfaethedig yn Atodiad 1. Mae'r cynllun hwn yn rhestru'r prosiectau dan bob blaenoriaeth fydd yn cyflawni'r amcanion a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU. Mae arian CFfG yn bennaf yn arian refeniw, gyda gwariant cyfalaf wedi ei gyfyngu i uchafswm o 44% o'r holl ddyraniad. Nid yw cynllun buddsoddi lleol Casnewydd ar hyn o bryd yn cynnig mwy na 40% o wariant ar brosiectau cyfalaf.

Ochr yn ochr â nifer o brosiectau a gyflwynir ar lefel leol, yr oedd prosbectws Llywodraeth y DU hefyd yn annog cydweithredu gyda phartneriaid allanol ar gyfer prosiectau lleol a rhanbarthol. Mae'r Cynllun Buddsoddi Lleol yn cynnwys prosiectau a gyflwynir gan bartneriaid allanol, yn ogystal â dyraniad i brosiectau a gyflwynir ar lefel ranbarthol. Yr oedd hyn yn cynnwys comisiynu cyflogadwyedd rhanbarthol ac arloesedd busnes, Twf Ymchwil a Datblygu, a thwristiaeth.

Mae'r Cabinet wedi gwrando ar farn trigolion a rhanddeiliaid ac yn cydnabod fod pobl am weld buddsoddi mewn cymunedau a lle. Mae'r Cynllun Buddsoddi Lleol yn cynnig buddsoddi mewn mannau fel Parc Tredegar a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu, yn ogystal â chefnogaeth i bartneriaid sydd eisiau buddsoddi mewn gwelliannau i gyfleusterau chwaraeon pwysig gan gynnwys Rodney Parade a maes Criced Sir Casnewydd. Bwriedir buddsoddi yn helaeth hefyd mewn Pobl a Sgiliau i gefnogi pobl ifanc, helpu trigolion i waith a chynyddu sgiliau'r gweithlu presennol er mwyn sicrhau y gall y trigolion gyrchu swyddi da, a bod gan fusnesau weithlu gwydn gyda'r sgiliau addas.

Mae Cefnogi Busnesau Lleol yn flaenoriaeth ar wahân gyda chynnig i ymestyn ac adeiladu ar y gefnogaeth a gynigir gan Grantiau Datblygu Busnes Dinas Casnewydd. Byddwn hefyd

yn cefnogi busnesau trwy wreiddio egwyddorion yr economi gylchol, a hybu'r cadwyni cyflenwi ôl-ffitio fel y gall y Cyngor gadw at ei ymrwymiadau newid hinsawdd.

Nododd cydweithwyr y deilliannau arwyddocaol oedd i fod i ddod o'r gwahanol brosiectau. Ymysg y rhain yr oedd plannu 750 o goed newydd, creu 66 swydd newydd yn y sector celfyddydau/treftadaeth, creu 50 o fusnesau newydd, a chefnogi o leiaf 400 o fusnesau sy'n bodoli eisoes. Ymysg enghreifftiau eraill mae cefnogi dros 950 o bobl i waith a chefnogi dros 1000 o bobl i gael cymwysterau, trwyddedau a sgiliau. Dywedodd y Cabinet fod y niferoedd hyn yn rhyfeddol, gan nodi fod gan yr arian y potensial i wneud cryn wahaniaeth i'r mannau lle mae trigolion yn byw, gwytnwch busnesau a bywydau'r trigolion. Mae nifer o ffynonellau cyllid hefyd fyddai'n grymuso grwpiau lleol i gynnal digwyddiadau ac ehangu eu gweithgareddau.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Ystyriodd y Cynghorydd Davies fod y newydd fod arian am gael ei fuddsoddi yn y ddinas yn wych, a bod ymgynghori yn digwydd gyda'r trigolion i weld beth oedd arnynt eisiau, yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau. Dywedodd y Cynghorydd Davis fod amcanion llesiant Casnewydd yn rhoi blaenoriaeth i'r economi, lles, swyddi, addysg a chynaliadwyedd. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar ei bod yn wych gweld cyflwyno'r amcanion hyn gyda buddsoddiadau mewn mannau gwyrdd, busnesau lleol a swyddi.

- Soniodd y Cynghorydd Harvey fod gan y cynllun buddsoddi lleol ar hyn o bryd 47 o brosiectau, heb gynnwys y rhai dan Multiply, sydd yn cynyddu graddau mewn mathemateg trwy 900 ymyriad. Dywedodd y Cynghorydd Harvey fod hyn yn adlewyrchu'r hyn y bu'r trigolion yn gofyn amdano, a bod y CFfG yn ymdrin â chymaint o agweddau gwahanol, o barc gwib i astudiaeth dichonoldeb am lle i gadw Llong Casnewydd. Byddai cymunedau yn gweld gwerth £30M o fuddsoddiad dros y tair blynedd nesaf, ac yr oedd y Cabinet yn ddiolchgar am hyn.

- Teimlai'r Cynghorydd Hughes ei bod yn bwysig fod y cyllid yn cyd-fynd â Chynllun Buddsoddi Lleol Casnewydd a bod trigolion lleol a rhanddeiliaid yn cyfrannu. Gwelodd y Cynghorydd Hughes fod hyn wedi ei adlewyrchu yn amrywiaeth y prosiectau sy'n cryfhau cymunedau yng Nghasnewydd, a nododd hefyd fod y gefnogaeth i fusnesau lleol hefyd yn bwysig. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol trwy alluogi'r Cyngor i wella eu cyfleusterau ac amgylchedd y ddinas yn gyffredinol, gan gefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yr oedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol felly yn llawn gefnogi'r adroddiad.

- Yr oedd y Cynghorydd Forsey hefyd yn cefnogi dyraniad y CFfG, gan ystyried bod y rhain yn brosiectau gwych sy'n dangos yr hyn y gall y cyngor wneud, o gael y buddsoddiad. Aeth y Cynghorydd Forsey ymlaen i ddweud y byddai'r gwaith ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, gan gynnwys mesurau i wella'r cyflenwad dŵr, bioamrywiaeth, mynediad i'r anabl ac uwchraddio'r ganolfan ymwelwyr yn cael ei werthfawrogi gan drigolion y Tŷ-Du. Dywedodd y Cynghorydd Forsey fod llawer o'r prosiectau yn rhai da, gan gynnwys y datblygiad ym Mharc Tredegar, fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r trigolion hynny sy'n defnyddio'r parc. Yr oedd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth felly yn cefnogi'r holl brosiectau ac yn croesawu'r adroddiad.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Marshall fod yr adroddiad yn gadarnhaol a'i fod yn hapus i weld ei fod yn bwrw ymlaen, gan ei fod yn dangos beth ellid ei wneud gyda'r buddsoddiad iawn. Nododd y Cynghorydd Marshall fod y cynlluniau yn hybu nifer y swyddi yn y ddinas ac yn helpu incwm, sydd yn arbennig o fuddiol o gofio'r argyfwng costau byw, ac y byddai 400 o fusnesau yn elwa o'r CFfG. Ystyriai'r Cynghorydd Marshall mai'r peth pwysig yma oedd gwrando ar y trigolion, a fyddai yna ŵr yn gweld y gwahaniaeth a ddeuai'r ychwanegiadau hyn i'r ddinas, gan gynnwys yr Academi

Ieuenctid, Parc Tredegar, a hyrwyddo diwylliant y ddinas, gan gynnwys Llong Casnewydd a thwristiaeth.

- Diolchodd yr Arweinydd i'r cydweithwyr am eu sylwadau, gan nodi hefyd faint yr her a'r angen i gyflwyno yn fuan. Dywedodd fod oblygiadau refeniw fyddai'n parhau unwaith i arian y CFfG ddod i ben. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae angen trefniadau llywodraethiant a gweinyddu cadarn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei reoli a'i fonitro'n gywir, a bod risgiau yn cael eu nodi a'u lliniaru.

  Dewis arall yw penderfynu fod graddfa'r her yn rhy fawr, a pheidio â chyflwyno unrhyw rai o'r prosiectau a restrir yn y Cynllun Buddsoddi Lleol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu colli cyfle i fuddsoddi mewn ardaloedd, cymunedau a  busnesau lleol.

  Cynigiodd yr Arweinydd felly fod y Cabinet yn cadarnhau argymhellion yr adroddiad, a gofynnodd i'r swyddogion fwrw ymlaen gyda'r Cynllun Buddsoddi Lleol arfaethedig yn ddi-oed.

**<u>Penderfyniad</u>**

Cabinet:
1. Cadarnhau'r cyflwyno ym mlwyddyn gyntaf y CFfG am 2022/2023 yn unig.
2. Cymeradwyo'r trefniadau gweinyddu a llywodraethiant arfaethedig.
3. Cadarnhau Cynllun Buddsoddi Lleol Casnewydd arfaethedig sydd yn cynnwys ystod gynhwysfawr o brosiectau a gyllidir dan CFfG am flynyddoedd 2 a 3. Nodi'r deilliannau a'r allbynnau disgwyliedig ar gyfer y ddinas, ac awdurdodi'r Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd a'r pennaeth Cyllid i hawlio'r cyllid perthnasol gan yr Awdurdod Arweiniol.
4. Dirprwyo awdurdod i Fwrdd mewnol CFfG, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd, trwy ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Dwf Economaidd a Buddsoddi strategol, i gytuno ar brosiectau penodol dan bob un o dair blaenoriaeth y CFfG a Multiply, ail-drefnu ac ail-asio yn ôl y galw er mwyn cyrraedd y deilliannau a'r allbynnau yn erbyn ymyriadau CFfG.
5. Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyfraith a Safonau i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol er mwyn galluogi trydydd partïon sy'n gyflenwyr/darparwyr i gael eu penodi ar gyfer prosiectau mewnol a rhai a gomisiynir yn allanol, a darparu grantiau i drydydd partïon sy'n gwneud cais.
6. Awdurdodi Bwrdd CFfG i weithredu o fewn y fframwaith ariannol a awgrymir er mwyn rheoli'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â rhaglen y CFfG.

5 **Prif Gynllun Pillgwenlli**

Trodd yr Arweinydd at yr adroddiad nesaf ar yr agenda, Prif Gynllun Pilgwenlli. Yr oedd yr adroddiad a dolen i ddogfen y Prif Gynllun wedi eu cynnwys ym mhecyn yr agenda.

Comisiynodd Un Casnewydd, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, fudiad dylunio trefol a phrif gynllunio o'r enw The Urbanists i weithio gyda phartneriaid, busnesau, a'r gymuned, i ddatblygu Prif Gynllun heriol ac uchelgeisiol ar gyfer Pilgwenlli.

Yr oedd hyn yn dilyn pryderon a godwyd gan drigolion Pilgwenlli am nifer o broblemau yn y Ward.

Yr oedd menter gymdeithasol o'r enw MELA Cymru hefyd yn rhan o'r gwaith ac wedi cynnal ymarferiad dwys o ymwneud â'r gymuned yn yr ardal.

Yr oedd y cynllun yn canolbwyntio ar gyfres o Uchelgeisiau Cymunedol a hefyd yn cydnabod gwaith oedd eisoes yn digwydd yn yr ardal.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r bwriadau strategol y Prif Gynllun,  a ddatblygwyd wedi llawer o ymwneud â thrigolion, busnesau, a phartneriaid Pilgwenlli.

Dechreuodd y gwaith ar y Prif Gynllun ym mis Tachwedd 2021 ac yr oedd yn cynnwys llawer o ymwneud cymunedol, gyda 51 o gyfweliadau unigol gyda rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned, 14 o ddigwyddiadau ymwneud gyda grwpiau a dargedwyd, 2650 o unigolion a gyrhaeddwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, a Chyswllt Pilgwenlli,  a barn a gasglwyd gan 605 o bobl o wahanol gefndiroedd.

Yn dilyn dadansoddi'r gofod daearyddol, darpariaeth manwerthu a gwasanaethau, mannau gwyrdd, a dangosyddion diogelwch cymunedol, ffurfiwyd tri Uchelgais Cymunedol o ganlyniad i adborth gan y gymuned a busnesau:

- Gwell mannau gwyrdd a chyhoeddus
- Gwell cynnig gan fusnesau a siopau a'r amgylchedd
- Cymysgedd o gyfleusterau i'r gymuned ac ieuenctid

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod y gwaith oedd eisoes yn digwydd, ac a ddatblygodd dros y cyfnod. Mae hyn yn cynnwys Pilgwenlli Ddiogelach, oedd yn ail-flaenoriaethu gwaith o ganlyniad i'r ymwneud cymunedol ac sy'n dal ymlaen, dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd a Heddlu Gwent ar y cyd.

Yr oedd y Prif Gynllun hefyd yn cynnwys gwaith i wella cyfathrebu, mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, gwella tai, rhoi gwell cefnogaeth i fusnesau, a gwella'r amgylchedd ffisegol a mannau gwyrdd.

Cytunodd Un Casnewydd â'r Prif Gynllun a rhaid yn awr ei fabwysiadu gan bob partner.

Teimlai'r Arweinydd ei bod yn bwysig ail-bwysleisio fod y Cabinet yn cytuno a bwriadau strategol y Prif Gynllun ac i asio penderfyniadau a wneid â dyheadau'r gymuned, fel y manylir arnynt yn y Prif Gynllun.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod yn rhaid i'r Cabinet sicrhau eu bod yn dal i gydweithio fel partneriaid i nodi a denu cyllid allanol i helpu i gefnogi cyflwyno'r prosiectau allweddol a nodwyd yn y Prif Gynllun. Ymrwymiad tymor-hir yw hwn, a rhaid i'r Cabinet sicrhau eu bod yn parhau i ymwneud â'r gymuned i ddatblygu cynlluniau a pheri newid.

Yn bwysig iawn, ni wnaiff y Cabinet wneud addewidion rhy hael na thangyflawni i'r trigolion.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cytunodd y Cynghorydd Davies fod hyn yn waith hanfodol i wella Pilgwenlli a'i wneud yn lle ffyniannus i fyw. Dywedodd ei fod yn wych gweld gwireddu uchelgeisiau'r gymuned, a chanolbwyntio ar ansawdd bywyd oedolion a phlant. Croesawodd y Cynghorydd Davies hyn, gan gynnwys blaenoriaethu cyfleusterau chwarae a rhai i ieuenctid, yn ogystal â blaenoriaethu swyddi a chreu cyfleoedd i bobl leol. Daeth y Cynghorydd Davies i'r casgliad fod hwn yn brosiect uchelgeisiol, a'i bod yn gyffrous bod yn rhan o'r daith.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at y derminoleg a ddefnyddiwyd, sef 'cryf nid cam', a oedd yn ei barn hi yn chwa o awel iach, o ystyried y sylwadau negyddol a gyfeirid fel arfer at Bilgwenlli.  Dywedodd fod ei theulu hi yn byw yno, a'i fod yn wastad wedi bod yn lle bywiog. Ystyriai'r Aelod Cabinet dros Les Cymunedol fod hyn yn syniad gwych i Bilgwenlli a'i bod yn llawn gefnogi'r adroddiad.

- O brofiad personol, cytunodd y Cynghorydd Hughes mai Pilgwenlli oedd un o'r llefydd mwyaf cyffrous ac amrywiol i fyw yng Nghasnewydd, o ran y bwyd, y gerddoriaeth a'r

bobl. Yr oedd yn cydnabod fod heriau mawr yn bodoli, ond fod cyfle hefyd i bobl Pilgwenlli rymuso eu hunain a chyrraedd eu llawn botensial.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Clarke at yr amgylchiadau economaidd anodd, ac ystyried yr effeithiau cadarnhaol a gâi'r prif gynllun yng Nghasnewydd. Yr oedd yn falch o weld fod ymwneud cymunedol ar flaen y cynllun, a chyfeiriodd at onestrwydd dy ddogfen. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod mewn cyfarfod yn gynharach yn y dydd, yn siarad ag un o'r partneriaid oedd yn rhan o'r prosiect ac a groesawodd y cyfle i roi eu barn, a theimlo fod y cyngor yn gwrando.

- Dywedodd yr Arweinydd nad ymrwymiad oedd hyn i fuddsoddi ariannol, ond un oedd yn gofyn i bartneriaid asio eu penderfyniadau am wasanaethau a/neu ddatblygiadau yn ardal Pilgwenlli gyda dyheadau ac uchelgais y Prif Gynllun. Yr oedd y Cynllun yn mynnu bod partneriaid yn parhau i ymrwymo i ddefnyddio adnoddau ym Mhilgwenlli mewn ffordd fyddai'n cefnogi'r uchelgais hwn orau, ac i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y gymuned. Dywedodd yr Arweinydd fod swyddogion i fod i barhau i weithio gyda phartneriaid i nodi a chyrchu cyllid allanol er mwyn cyflawni nod y Prif Gynllun.

  Teimlai'r Arweinydd y dylid hefyd cydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r prif gynllun, gan gynnwys y cyllid.

**<u>Penderfyniad</u>**

Cytunodd y Cabinet i fabwysiadu'r Prif Gynllun fel y sbardun strategol allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau yn ward Pilgwenlli a gofynnwyd i'r swyddogion barhau i weithio gyda phartneriaid i nodi a chyrchu cyllid allanol i gyflwyno'r Prif Gynllun.

6 **Pwysau Allanol NCC - Costau Byw**

Cyflwynodd yr Arweinydd y cyfoesiad diweddaraf am y prif bwysau allanol oedd yn wynebu'r cyngor, busnesau, trigolion, a chymunedau.

Parhau y mae'r argyfwng costau byw, gydag adroddiad gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol yr wythnos ddiwethaf yn dweud fod 95% o 450 o eitemau bwyd yn y fasged chwyddiant brisiau cwsmeriaid wedi codi o ran pris dros y flwyddyn a aeth heibio, a rhai o gymaint â 50%.

Hefyd, yr oedd y gyfradd sylfaen yn uwch na chyfartaledd llynedd.

Yng nghyd-destun yr ardaloedd a nodwyd yn yr adroddiad, yr oedd gweithio ar y cyd gyda phartneriaid ledled y ddinas yn dal yn flaenoriaeth. Denodd y digwyddiad costau byw amlasiantaethol yn y Riverfront ar 26 Ebrill tua 180 o drigolion a allodd fynd at gyngor a chyfarwyddyd ar reoli arian, gwneud y mwyaf o incwm, a chael cefnogaeth gyda threuliau'r cartref.

Anogodd yr Arweinydd drigolion oedd yn cael anawsterau i gysylltu â'r cyngor am wybodaeth a chael eu cyfeirio at y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael: yn bersonol, dros y ffôn neu trwy ymweld â'r tudalennau cefnogaeth a chynghori ar wefan y Cyngor.

Fel y byddai'r Aelodau yn gweld yn yr adroddiad, canfu arolwg diweddar o banel dinasyddion Involve fod tua thri chwarter y bobl a ymatebodd *(164)* wedi dweud eu bod ychydig yn bryderus neu'n bryderus iawn am yr argyfwng costau byw.

Mae ysgolion Casnewydd yn dal i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc fwyaf bregus, ac yn cynllunio ffyrdd o gefnogi teuluoedd yn ystod gwyliau hanner tymor Mai a gwyliau banc. Byddai

ysgolion hefyd yn hwyluso dosbarthu gwerth saith diwrnod o dalebau bwyd i'r teuluoedd hynny sydd â hawl i ginio ysgol am ddim.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn fraint ymweld ag Ysgol Gynradd St Julian, lle'r oedd ganddynt y Big Bocs Bwyd oedd yn helpu i gefnogi'r teuluoedd hynny mewn angen yn yr ysgol ac yn y gymuned. Roedd y fenter yn addysgu pobl ifanc, nid yn unig am wastraff bwyd ond hefyd am gyfrifoldeb cymdeithasol a datblygu sgiliau rhifedd. Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn fenter wych ac yr oedd wrth ei bodd gweld y byddai ysgolion cynradd eraill yng Nghasnewydd yn rhoi menter debyg ar waith. Bu'r Arweinydd yn ymweld yn ddiweddar ag ysgol Gynradd Maendy ac yr oeddent bron yn barod i agor eu siop. Ar bob lefel, yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn cefnogi ac yn gwneud popeth yn eu gallu i helpu pobl. Os oedd unrhyw un yn wynebu heriau, anogodd yr Arweinydd hwy i ddod ymlaen gan fod help ar gael iddynt.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Soniodd y Cynghorydd Harvey am y ffaith sobreiddiol fod 77% o drigolion yn pryderu am gostau byw, a phwysleisiodd fod yn rhaid i'r trigolion estyn allan am help gan y Cyngor. Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Arweinydd am gydnabod y gwaith sy'n digwydd yn ei phortffolio, ac yr oedd hefyd am gydnabod y gefnogaeth gan staff oedd yn gwneud eu heithaf i ofalu am bawb yng Nghasnewydd. Gallai trigolion ffonio 01633 656656 neu gysylltu â chynghorydd eu ward am help a chefnogaeth i wneud bywyd ychydig yn llai o straen.

- Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r Arweinydd am grybwyll Ysgol St Julian; bu'r Aelod Cabinet yn llywodraethwr yno ers 2002 ac yn Gadeirydd ers 2007 ac yn falch iawn o hynny, yn ogystal â bod yn rhan o'r Big Bocs Bwyd. Yr oedd cefnogaeth y gymuned i'w weld ledled y ddinas, gyda llawer o ysgolion yn cefnogi teuluoedd ac yn gweithredu fel hwb cymunedol, gan ddarparu bwyd, dillad a chyngor. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch fod Llywodraeth Cymru yn darparu talebau bwyd dros ŵyl banc mis Mai. Mae prydau ysgol am ddim ar gael i'r Cyfnod Sylfaen, fydd yn cael ei ehangu i CA2 ym mis Medi, ond dylai rhieni wneud cais i dderbyn eu talebau. Y gobaith yw y bydd LlC yn gwrando ar anghenion trigolion ac yn parhau i beri bod y ddarpariaeth hon ar gael dros wyliau'r haf. Mae'r Aelod Cabinet yn lobïo'r Gweinidog addysg ynghylch y ddarpariaeth ychwanegol.

- Soniodd y Cynghorydd Forsey am ffoaduriaid Wcráin, a dweud fod y taliadau i deuluoedd oedd yn eu lletya wedi codi i £500 y mis, oedd yn gryn dipyn o help a phe teimlai unrhyw un eu bod mewn sefyllfa i gynnal teuluoedd, y gallant ddod at y Cyngor am fwy o wybodaeth.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgaredd y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau Casnewydd.

7 **Rhaglen Waith**

Yr adroddiad misol rheolaidd oedd hwn ar y rhaglen waith.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

The meeting terminated at Time Not Specified